WHAT CAN YOU DO?

SYNIADAU AR GYFER MYFYRWYR ÔL-16

Gellir cynnig nifer o ffyrdd i fyfyrwyr 16-19 Ddathlu AG gan greu cyfleoedd gwirioneddol i gyfoethogi, ehangu neu hybu eu hastudiaethau. Mae angen i ysgolion weithredu'r weledigaeth ar gyfer y posibilrwydd o ychwanegu at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y myfyrwyr gan hefyd i ychwanegu gwerth academaidd a galwedigaethol.

Mae'r awgrymiadau a ganlyn i gyd yn syniadau ar gyfer gweithgareddau a allai fod yn rhan o'r ddarpariaeth 16-19 unrhyw adeg mewn unrhyw gyd-destun. Fodd bynnag, gallai mis Dathlu AG , roi hwb arbennig i greu darpariaeth well nag y gellid ei chynnig fel arfer mewn ysgol neu goleg. Os oes chweched dosbarth yn yr ysgol, mae pob rheswm dros cynnig rhywbeth iddyn nhw'n ogystal â'r disgyblion iau, fel rhan o ddigwyddiadau Dathlu AG. Mewn colegau chweched dosbarth, gall Dathlu AG arwain at ddarpariaeth sy'n fwy eang nag a fyddai'n bosibl arfer.

Yn yr adran gystadlaethau ar wefan Dathlu AG http://www.celebratingre.org/index.php/competitions mae un eitem ar gyfer myfyrwyr 16-19 yn benodol waeth pa gwrs y maent yn ei ddilyn. Dyma gyfle i fyfyrwyr yn yr oedran hwn gymryd rhan yn greadigol gan ddefnyddio'u dychymyg.

Cynadleddau dydd

i gyflwyno addysg grefyddol i fyfyrwyr 16-19 drwy

- trefnu dadleuon 'mewnol' gan ddefnyddio siaradwyr allweddol i gyflwyno materion crefyddol/athronyddol e.e. g. drygioni, bodolaeth Duw, moeseg sefyllfa, tarddiad a chreadigaeth
- mynd i gynhadledd chweched dosbarth leol gyda myfyrwyr o wahanol ysgolion neu gymryd rhan mewn cynadleddau addysg grefyddol cenedlaethol e.e. pynciau'n ymwneud â chydlyniant cymunedol, yr holocost, ffwndamentaliaeth grefyddol,
- cynnal diwrnod 'celf ym myd crefydd', cynnal arddangosfeydd, trafodaethau a gweithdai gyda cherddorion, perfformwyr drama a dawns o wahanol grefyddau
- cyfarfod â phobl o wahanol ffydd/pobl seciwlar mewn fforwm rhyng-ffydd i drafod pynciau penodol e.e. profiadau crefyddol heddiw, safbwyntiau crefyddol ar ddinasyddiaeth
- cymryd rhan mewn diwrnod arbrofol sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ymchwilio i gwestiynau fel datblygiad ysbrydol a chynnig eu syniadau a'u credoau eu hunain e.e. Prosiect Breathe, sy'n cynnig cymorth am ddim yn ystod mis Dathlu AG (gweler y Calendr Digwyddiadau ar y wefan i gael rhagor o fanylion) http://www.celebratingre.org/index.php/whats-on
- cymryd rhan mewn diwrnodau ysgogi'n ymwneud â chredoau a gwerthoedd e.e. elusennau neu gyrff fel Damaris a'r syniad o gael 'Llywydd y Dydd' www.damaris.org/cm/home/schools
- datblygu cysylltiadau e-bost â myfyrwyr o wahanol gymunedau ffydd (e.e. yng Nghanolbarth Lloegr neu Lundain), ac yna cyfarfod ac archwilio syniadau ac arferion crefyddol a mannau addoli neu gymryd rhan mewn cynhadledd ar y cyd.

Ymweld â safleoedd

i gyflwyno addysg grefyddol i fyfyrwyr 16 – 19 drwy

- ymweld â mannau addoli, safleoedd o ddiddordeb crefyddol a chyrchfannau pererindodau (e.e. Eglwys Gatholig Coventry, Walsingham, Canolfan Holocost Beth Shalom), gan adael i'r myfyrwyr drefnu'r daith eu hunain
- trefnu profiadau crefyddol/traddodiadau seciwlar sy'n anghyfarwydd iddynt
- e.e. Barmitzvah, priodas Hindwiadd, dathliadau'r Pasg Uniongred, Bedydd Credinwyr, dathliadau Eid, seremoni enwi Dyneiddwyr, neu ymweld â madrassah Mwslemaidd, langar Sikhaidd neu gymuned Fwdhaidd
- treulio diwrnod, neu ragor, mewn cymuned grefyddol e.e yn cyfweld, yn arsylwi, yn gweithio, neu'n treulio amser mewn tawelwch
- ymchwilio i elusennau crefyddol, treulio amser gyda gweithwyr neu mewn swyddfa leol/ cenedlaethol neu arsylwi/cymryd rhan yn y gwaith e.e Byddin yr Iachawdwriaeth
- ymuno ag ysgol gynradd leol neu ddosbarth CA3 i ymweld â man addoli a bod yn gyfrifol am gynllunio a threfnu'r ymweliad
- rhoi cyfle iddynt ymuno â thripiau astudio dramor gan gynnwys ymweliad sydd ag arwyddocâd crefyddol rhyngwladol.

Syniadau eraill

Darparu addysg grefyddol i fyfyrwyr 16 – 19 oed drwy:

- creating a vox pop or video on a controversial issue or one of specific interest to the student body. TrueTube http://www.truetube.co.uk/ provides advice and online tools for making successful videos. It encourages young people to explore important themes and young film makers can have their videos uploaded to this monitored website.
- working with other schools to set up a Youth SACRE. Some local authorities have these already; the National Association of SACREs website www.nasacre.org.uk has an example (under Projects) showing the steps taken in the London Borough of Bromley to engage Y12 students in planning and starting up a Youth SACRE
- developing an RE trail in your local area. Using the guidelines on the website (www.retrails.org.uk) sixth form students could make contact with, visit, photograph and plan five or six places of worship or of religious/ belief significance within the local area in order to construct an RE trail for schools to use in their RE work.

Casgliad

Er bod angen ystyried iechyd a diogelwch wrth drefnu ymweliadau, gallant fod yn ffordd bwerus o datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o fywydau pobl grefyddol a'r hyn sy'n eu hysgogi, a chynnig cyfleoedd gwirioneddol iddynt feithrin a hyrwyddo cysylltiadau trawsgwricwlaidd a rhyng-ffydd a'u perthynas ag eraill.